# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Mawrth 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**John Marek (Wrecsam):** Faint o aelodau staff a delir drwy gyllideb Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r Comisiwn Cysgodol neu'r Llywydd a beth yw eu graddfeydd. (WAQ49923)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw perchennog cartref sydd wedi ei leoli mewn ardal gorlifdir TAN 15 ac sydd, o'r herwydd, yn destun cyfyngiadau cynllunio newydd, yn gallu hawlio disgownt oddi ar y dreth gyngor. (WAQ49909)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49914)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Sawl cais Tir Gofal newydd a dderbyniwyd cyn belled ers trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49915)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Sawl cais Tir Gofal newydd sy'n dal heb eu prosesu ers trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49916)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Faint o amser a gymer y dagfa o geisiadau Tir Gofal i'w chlirio yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49917)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Sawl cais Tir Gofal newydd yr ymwelwyd â hwy neu a fapiwyd gan Swyddogion y Cynulliad ers trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49918)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A fu unrhyw oedi gyda thaliadau Tir Gofal yn sgil trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49922)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau nad oes unrhyw ddata

pwysig yn cael ei golli wrth drosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49919)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa waith a wnaed i sicrhau bod systemau mapio Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gydnaws â'i gilydd cyn dechrau trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49920)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A yw'r Gweinidog yn gallu tawelu pryder unigolion a mudiadau na fydd unrhyw oedi gyda phrosesu ceisiadau na thaliadau yn sgil trosglwyddo swyddogaethau Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49921)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio contractau dros-dro ar gyfer staff nyrsio a staff ategol sy'n gweithio yn ysbyty Fairwood, Abertawe. (WAQ49910)

**Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i gefnogi penodi Hepatolegydd yng Nghymru. (WAQ49911)

**Karen Sinclair (De Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen dal i fyny ar gyfer Prevenar, y brechlyn niwmococol cyfunedig, yng Nghymru. (WAQ49912)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd sganwyr PET (Tomograffeg Allyriad Positron) yng Nghymru, a pha gynlluniau sydd ganddo i gynyddu'r ddarpariaeth hon. (WAQ49913)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hysbysu menywod Cymru o'r angen am sgrinio serfigol rheolaidd. (WAQ49924)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog esbonio sut y penderfynir faint o leoedd hyfforddi nyrsys a fydd ar gael. (WAQ49925)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth nyrsys ysgol. (WAQ49926)